Cyllid & Tollau EM

Nodiadau Crynhoi Enillion Cyfalaf

Y flwyddyn dreth o 6 Ebrill 2007 i 5 Ebrill 2008

Cynnwys

Asedion	CGN 1
Gwarediadau	CGN 2
Rhyddhad	CGN 3
Trosglwyddo asedion rhwng gwŷr a gwragedd a phartneriaid sifil	CGN 3
Eich prif gartref	CGN 4
Paratowch gyfrifiannau eich enillion cyfalaf cyn dechrau cwblhau tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf*	CGN 4
Sut i wneud cais, dewis neu roi unrhyw rybudd ynglŷn â Threth Enillion Cyfalaf yn eich Ffurflen Dreth	CGN 4
Amcangyfrifon a phrisiadau	CGN 4
Personau cysylltiol	CGN 5
Adseilio a 31 Mawrth 1982	CGN 5
Gwaredu cyfranddaliadau neu warantau	CGN 6
Lwfans mynegeio	CGN 6
Colledion caniataol	CGN 7
Rhyddhad meinhau	CGN 8
Asedion nad ydynt yn ymwneud â'r busnes at ddibenion rhyddhad meinhau	CGN 9
Asedion busnes	CGN 9
Eich cyfrifiannau	CGN 10
Cwblhau tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf*	CGN 11
Rhestr termau	CGN 15
Rhyddhad enillion cyfalaf (a dewisiadau)	CGN 16
Enillion blynyddoedd cynharach	CGN 17
Dyrannu colledion	CGN 18
Taflen waith ar gyfer y cyfrifiad	CGN 19
Taflenni cymorth ar gyfer enillion cyfalaf	CGN 20

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Weithiau mae'r rheolau ar gyfer cyfrifo enillion a cholledion cyfalaf yn gymhleth ond mae'r nodiadau hyn yn rhoi arweiniad cyffredinol ynglŷn ag enillion cyfalaf ynghyd ag arweiniad neilltuol a ddylai eich helpu i gwblhau tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf* eich Ffurflen Dreth. Nid ydynt yn ceisio esbonio popeth a allai effeithio ar eich cyfrifiannau enillion cyfalaf - mae llawer fwy o wybodaeth yn ein Taflenni Cymorth a'n Llawlyfrau yn **www.hmrc.gov.uk**

Esbonnir *geiriau ac ymadroddion* mewn italig ym mhellach ymlaen yn y nodiadau hyn neu yn y Rhestr Termau ar dudalennau CGN 15 a CGN 16.

Asedion

Efallai y bydd rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf pan fyddwch yn gwaredu ased sy'n werth mwy pan fyddwch yn ei waredu na phan gafodd ei gaffael. At ddibenion Treth Enillion Cyfalaf, mae ased yn unrhyw ffurf o eiddo.

Yr asedion mwyaf cyffredin yw:

- stociau, cyfranddaliadau ac unedau mewn ymddiriedolaeth uned
- tir ac eiddo
- asedion busnes, fel ewyllys da.

Mae Treth Enillion Cyfalaf yn daladwy ar y cynnydd mewn gwerth. Os gwnewch golled wrth waredu ased efallai y gallech osod y golled honno yn erbyn enillion ar asedion eraill neu ei chario ymlaen i flwyddyn dreth ddiweddarach.

Does dim rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf os ydy'ch enillion trethadwy ar ôl didynnu colledion caniataol a defnyddio rhyddhad meinhau am y flwyddyn yn llai na'r swm blynyddol a eithrir. Yn 2007-08 mae'r swm blynyddol a eithrir yn £9,200.

Gwarediadau

Bydd ennill trethadwy neu golled ganiataol yn codi pan waredir ased. Os bydd y derbyniadau a gewch drwy waredu ased yn uwch na chost ganiataol yr ased, efallai y bydd gennych ennill trethadwy. Os ydy'n llai efallai y bydd gennych golled ganiataol. Mewn rhai sefyllfaoedd efallai y caiff y costau caniataol eu gostwng oherwydd cais ar gyfer rhyddhad Treth Enillion Cyfalaf mewn blwyddyn gynharach. Wedyn cyfrifir yr ennill neu'r golled gan ddefnyddio'r swm gostyngol. Gellid cyfyngu ar yr enillion neu'r colledion os oeddech yn berchen ar yr ased ar 31 Mawrth 1982 (gweler tudalen CGN 5).

Gallwch waredu ased mewn sawl ffordd, gan gynnwys pan fydd ased neu ran o ased yn cael:

- ei werthu
- ei rhoi
- ei gyfnewid
- ei golli neu ei ddinistrio.

Y ffordd fwyaf cyffredin i waredu ased yw trwy ei werthu, ac yng ngweddill y nodiadau hyn efallai y byddwn yn cyfeirio at asedion yn cael eu gwerthu yn hytrach nag yn cael 'eu gwaredu' (dylech gadw mewn cof y gall ennill neu golled godi ar fathau eraill o warediadau ac nid yn unig drwy werthu). Ceir amgylchiadau llai cyffredin pan gewch eich trethu fel petaech wedi gwaredu ased; er enghraifft, os cafodd gwerth eich ased ei ostwng er mwyn cynyddu gwerth ased ym mherchenogaeth rhywun arall, neu os cawsoch arian oherwydd eich bod yn berchen ar ased ac ni chodir Treth Incwm ar yr arian hwnnw. Os nad ydych yn siŵr, yna cysylltwch â ni.

Os ydych yn preswylio ac mae eich domisil yn y DU mae'n rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf ar eich holl enillion cyfalaf trethadwy, gan gynnwys enillion ar asedion a leolir y tu allan i'r DU, ar ôl didynnu colledion caniataol a defnyddio rhyddhad meinhau. (Fel arfer pennir eich domisil gan y man lle eich ganed chi, neu fan geni eich tad – ond gallai fod fel arall; os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni.)

Os ydych yn preswylio ond nid yw eich domisil yn y DU mae'n rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf ar eich holl enillion trethadwy ar asedion a leolir yn y DU ac ar asedion nad ydynt yn y DU pan drosglwyddir yr enillion i'r DU.

Mewn rhai amgylchiadau penodol efallai y bydd yn rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf ar enillion a wnaed gan gwmni neu ymddiriedolaeth y mae gennych fuddiant ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys enillion a wnaed gan:

- rhai mathau penodol o gwmnïau nad ydynt wedi eu sefydlu yn y DU ac rydych chi yn gyfranogwr ynddynt, neu
- ymddiriedolaeth sydd wedi ei sefydlu yn y DU ac rydych chi neu eich priod neu eich partner sifil yn gallu elwa neu yn elwa ohoni a chi yw'r setlwr, neu
- ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU a phriodolir yr enillion i chi oherwydd mai chi yw'r setlwr (mae fwy o fanylion yn Nhaflen Gymorth 299 *Non-residents trust and Capital Gains Tax*), neu
- ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU a phriodolir yr enillion i chi oherwydd eich bod wedi derbyn taliadau neu fuddiannau cyfalaf (mae mwy o fanylion yn Nhaflen Gymorth 299).

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Dylech gynnwys yr holl enillion o'r fath ym mlwch 31 oni bai:

- eu bod yn disgyn o fewn yr 'achos arbennig' y sonnir amdano yn Nhaflen Gymorth 277 *Trusts with settlor interest and trusts for the vulnerable: taper and losses,* neu
- eu bod yn codi o enillion a briodolir i chi fel buddiolwr ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU.

Dylid nodi enillion sy'n disgyn o fewn yr achos arbennig neu sy'n codi o enillion a briodolir i chi fel buddiolwr ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU ym mlwch 32. Gallwch ddidynnu colledion personol o'r enillion a gynhwysir ym mlwch 31 ond nid o flwch 32.

Rhyddhad

Caiff rhai asedion eu heithrio rhag Treth Enillion Cyfalaf, gan gynnwys:

- ceir preifat
- nwyddau personol a nwyddau sy'n werth hyd at £6,000 yr un pan fyddwch yn eu gwaredu
- Bondiau premiwm, tystysgrifau cynilion, Bondiau Cynilion Prydeinig
- stociau neu gyfranddaliadau o fewn cynllun ecwiti personol (PEP) neu gyfrifon cynilo unigol (ISA)
- stociau llywodraeth y DU – a adnabyddir fel giltiau neu warantau 'gilt edged'
- iawndal am anaf personol
- arian tramor at eich defnydd chi neu at ddefnydd eich teulu
- enillion betio, y loteri neu'r pyllau pêl-droed
- bonysau terfynol SAYE
- iawndal am bensiynau personol a gam-werthwyd a drefnwyd o ganlyniad i gyngor anfanteisiol a roddwyd rhwng 29 Ebrill 1988 a 30 Mehefin 1994
- polisïau yswiriant bywyd a chontractau blwydd-dal gohiriedig, oni chawsant eu prynu ar unrhyw adeg am gydnabyddiaeth wirioneddol
- cyfranddaliadau Cynllun Buddsoddiad Menter pan roddwyd rhyddhad Treth Incwm ar eu cyfer (a heb ei dynnu'n ôl)
- cyfranddaliadau Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro a gaffaelwyd o fewn y terfynau blynyddol ac o dan rai amodau penodol
- bondiau corfforaethol cymwys (gweler Taflen Gymorth 285 *Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax*).

Os collwch arian drwy werthu asedion a eithrir, ni ellir defnyddio'r colledion hynny i ostwng yr enillion trethadwy. (Fodd bynnag ceir rheolau arbennig ar gyfer cyfranddaliadau Cynllun Buddsoddiad Menter ac unrhyw eitemau neu nwyddau personol sy'n costio mwy na £6,000; gweler Taflen Gymorth 293 *Chattels and Capital Gains Tax* neu cysylltwch â ni os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.)

Trosglwyddo asedion rhwng gŵr a gwragedd a phartneriaid sifil

Os byddwch yn gwerthu neu'n rhoi ased i'ch gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil, ac rydych yn byw gyda'ch gilydd ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn dreth, ni fydd unrhyw Dreth Enillion Cyfalaf i'w thalu. Byddwn yn ystyried eich bod yn byw gyda'ch gilydd oni bai eich bod wedi gwahanu'n gyfreithiol a bod y gwahanu yn debygol o fod yn barhaol. Rydym yn trin y derbyniadau o'r gwerthiant fel na phetai'r swm a gewch yn peri ennill neu golled, ar ôl caniatáu *lwfans mynegeio*. Esbonnir *lwfans mynegeio* ar dudalen CGN 6. Fodd bynnag, bydd eich gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil yn talu treth ar unrhyw ennill dros gyfnod llawn y berchenogaeth (eich un chi a'u perchenogaeth nhw) pan fyddant yn gwerthu'r ased ym mhen hir a hwyr.

Eich prif gartref

Fel arfer cwmpesir unrhyw ennill sy'n codi pan werthir eich prif gartref gan ryddhad treth a elwir yn 'rhyddhad preswyl preifat' (ac os gwnewch golled, ni allwch ddidynnu'r golled honno o enillion arall). Mae fwy o fanylion yn Nhaflen Gymorth 283 *Private residence relief.* Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth:

- os oedd y gerddi neu'r tiroedd, gan gynnwys y tŷ, yn fwy na hanner hectar (mae hectar ychydig yn llai nag erw a chwarter)
- os defnyddiwyd rhan o'r tŷ at ddibenion heblaw fel eich cartref, er enghraifft, at ddibenion busnes
- os ni ddefnyddiwyd eich tŷ fel eich cartref trwy gydol eich perchenogaeth ohono (ond gallwch anwybyddu'r tair blynedd diwethaf eich perchenogaeth ohono) gweler *Rhyddhad gosod* ar dudalen CGN 17
- os bu ail gartref gennych ac ni fu'r un a werthwyd yn brif gartref i chi trwy gydol eich perchnogaeth ohono
- os caffaeloch eich cartref drwy rodd pan hawliwyd *rhyddhad daliol ar roddion*.

Os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac yn byw gyda'ch priod neu'ch partner sifil, dim ond un eiddo sy'n eiddo i'r naill neu'r llall neu'r ddau ohonoch, sy'n gymwys am ryddhad ar unrhyw un adeg.

Paratowch gyfrifiannau eich enillion cyfalaf cyn dechrau cwblhau tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf*

Yn gyntaf, casglwch ynghyd unrhyw bapurau y gallai fod eu hangen arnoch, er enghraifft:

- cytundebau ar gyfer prynu neu werthu asedion
- anfonebau am waith y gwnaethoch i wella'r ased
- copïau o unrhyw brisiadau ffurfiol a gawsoch
- nodiadau gan frocer.

Yna, paratowch eich cyfrifiant i ddangos ennill neu golled. Bydd yn rhaid i chi wneud hyn ar wahân ar gyfer pob ased a werthwyd. Bydd angen eich cyfrifiannau arnom **a'r** tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf* wedi'u cwblhau gyda'ch Ffurflen Dreth. Gallwch ddefnyddio'r Daflen Waith ar dudalen CGN 19 ar gyfer eich cyfrifiant. Bydd y paragraffau nesaf yn eich helpu gyda'ch cyfrifiannau.

Gallai rhai enillion a wnaed cyn 2007-08 fod yn drethadwy yn 2007-08. Rhaid i chi gynnwys yr enillion hyn ym mlwch 31; gweler tudalen CGN 17 am fwy o wybodaeth.

Sut i wneud cais, dewis neu roi rhybudd ynglŷn â Threth Enillion Cyfalaf yn eich Ffurflen Dreth

Os ydych am wneud cais, dewis neu roi unrhyw rybudd ynglŷn â Threth Enillion Cyfalaf yn eich Ffurflen Dreth, rhaid i chi roi 'X' (fel y bo'n briodol) ym mlychau 20, 26 neu 33 ar dudalennau CG1 neu CG2 tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf* gyda'ch Ffurflen Dreth. Rhaid i chi hefyd ddarparu manylion o bob cais, dewis neu rybudd yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 35 neu yn eich cyfrifiannau gan roi datganiad clir bod cais neu ddewis yn cael ei wneud neu eich bod yn rhoi rhybudd mewn perthynas ag ennill neu golled penodol. Mae Taflenni Cymorth Treth Enillion Cyfalaf yn rhoi manylion pellach ynglŷn â sut y dylid gwneud ceisiadau neu ddewisiadau penodol mewn Ffurflen Dreth.

Amcangyfrifon a phrisiadau

Ar rai achlysuron efallai y bydd rhaid i chi ddefnyddio ffigurau wedi'u hamcangyfrif – dylech nodi'n glir ar eich cyfrifiannau pa ffigurau sydd wedi eu hamcangyfrif, a pham rydych wedi eu defnyddio.

Mae prisiadau yn fwy cyffredin, yn arbennig os byddwch yn gwerthu asedion a gaffaelwyd oddi wrth, neu'n gwerthu asedion i, bobl rydych yn *gysylltiedig â* nhw, neu os gwerthwch ran o ased yn unig.

Unwaith eto, dylech nodi'n glir y defnydd o brisiadau yn eich cyfrifiannau, a dylech amgáu copi. Dylech ddweud pwy roddodd y prisiad a ph'un a oeddynt yn annibynnol ac yn gymwys i wneud hynny. Os ydych eisoes wedi gofyn i ni wirio eich prisiad drwy anfon ffurflen CG34 atom, dylech wneud hynny'n glir yn eich cyfrifiannau.

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Pan fo tir ac adeiladau wedi eu prisio, rhowch ddisgrifiad o'r eiddo, p'un a yw'n rhydd-ddaliadol/prydlesol, ac unrhyw denantiaethau sy'n effeithio ar eich perchnogaeth ar ddyddiad y prisiadau. Dylech atodi copi o'r cynllun os byddai hyn yn ein cynorthwyo i adnabod yr eiddo.

Efallai penderfynwn wirio eich prisiadau. Rydym yn defnyddio priswyr arbenigol i brisio amrywiaeth o asedion gan gynnwys cyfranddaliadau heb eu rhestru, tir, gweithiau celfyddydol ac ewyllys da. Os gwnawn ymholiadau ynglŷn â'ch prisiadau byddwch yn gallu trafod eich prisiadau gyda'n priswyr. Os na allwn gytuno, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol.

Ni fyddwn yn gwneud ymholiadau bob amser. Os na fyddwn yn gwneud ymholiadau ni ddylech dybio ein bod yn cytuno â'ch prisiadau.

Personau cysylltiol

Mae personau cysylltiol yn cynnwys:

- eich gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil (ond os ydych yn byw gyda'ch gilydd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn dreth y gwaredwyd yr ased i'ch priod neu'ch partner sifil ynddi, caiff unrhyw enillion eu gohirio tan i'ch priod neu'ch partner sifil werthu'r ased) gweler Taflen Gymorth 281 *Husband and wife, civil partners, divorce, dissolution and separation*
- eich brodyr a'ch chwiorydd, a brodyr a chwiorydd eich priod neu'ch partner sifil
- eich rhieni, mam-gu/tad-cu neu gynteidiau eraill a rhieni nain/taid neu gynteidiau eraill eich priod neu'ch partner sifil
- eich plant a disgynyddion uniongyrchol eraill eich priod neu'ch partner sifil
- priod neu bartneriaid sifil unrhyw un o'r perthnasau y soniwyd amdanynt eisoes
- eich partneriaid busnes a'u priod neu eu partneriaid sifil a'u perthnasau (ac eithrio caffaeliadau masnachol neu warediadau dilys asedion y bartneriaeth)
- unrhyw gwmni y byddwch yn ei reoli, ar eich pen eich hun neu gydag unrhyw bobl arall y soniwyd amdanynt uchod
- ymddiriedolwyr unrhyw setliad lle rydych chi neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â chi yn setlwr.

Os byddwch yn gwaredu ased i, neu'n caffael ased gan berson cysylltiol, dylai'r pris a dalwyd cael ei ddisodli gan y pris marchnad wrth gyfrifo eich ennill neu'ch colled. Os gwnewch golled, dim ond yn erbyn enillion a wnaethoch wrth waredu i'r un person cysylltiol hwnnw y gallwch osod y golled honno yn eu herbyn. Gelwir y rhain yn golledion rhwystredig. Er cânt eu cynnwys yn ffigurau eich colledion llawn, dylech gadw cofnod ar wahân ar gyfer pob colled rwystredig a gariwyd ymlaen i flynyddoedd diweddarach i sicrhau eich bod yn eu didynnu o enillion yn gywir, o enillion yn y dyfodol.

Adseilio a 31 Mawrth 1982

Os ydych yn gwaredu ased yr oeddech yn ei berchen ar 31 Mawrth 1982, gellir cyfyngu'r enillion neu'r colledion i'r ennill neu'r golled ers y dyddiad hwnnw. Gallwch ddewis cyfrifo'r enillion neu'r colledion ar yr holl asedion a oeddech yn eu perchen ar y dyddiad hwnnw trwy gyfeirio at eu gwerth y pryd hwnnw, yn hytrach na defnyddio eu cost hanesyddol. Gelwir hyn yn 'adseilio' ac mae'n rhaid gwneud y 'dewis' erbyn 31 Ionawr sy'n disgyn o fewn un flwyddyn a 10 mis o ddiwedd y flwyddyn dreth y gwaredwyd ased, a oeddech yn ei berchen ar 31 Mawrth 1982, ynddi am y tro cyntaf. Os gwnewch ddewis, ar y Ffurflen Dreth hon, dylech egluro hynny drwy ysgrifennu 'Dewis adseilio wedi ei wneud nawr' ar eich cyfrifiant. Os ydych yn cyfrifo eich enillion neu eich colledion ar sail dewis a wnaed yn gynharach nag yn y Ffurflen Dreth hon, dylech egluro hun yn eich cyfrifiannau. Efallai na fydd yn fanteisiol i chi wneud y dewis hwn, ac unwaith y byddwch wedi gwneud y dewis, ni allwch ei dynnu'n ôl.

Mae Taflen Gymorth 280 Rebasing – assets held at 31 March 1982 yn cynnwys mwy o wybodaeth ar ystod adseilio a dewisiadau adseilio.

Os nad ydych wedi gwneud 'dewis' dylech gymharu'r ennill, trwy ddefnyddio'r pris marchnad ar 31 Mawrth 1982, gyda'r ennill ar sail cost wreiddiol yr ased. Os oes ennill yn codi trwy ddefnyddio'r ddau ddull, trethir yr ennill lleiaf. Os bydd ennill trwy un dull a cholled trwy'r dull arall, ni fydd unrhyw beth yn drethadwy. Os bydd colled yn codi trwy ddefnyddio'r ddau ddull, yna caniateir y golled leiaf. Ond darllenwch y paragraff isod ar 'mynegeio' sy'n esbonio sut i gyfrifo faint o lwfans mynegeio sy'n ddyledus os oedd yr ased yn eich meddiant ar 31 Mawrth 1982.

Gwaredu cyfranddaliadau neu warantau

Mae rheolau sy'n gymwys pan fyddwch yn gwaredu cyfranddaliadau neu warantau sy'n cysylltu gwarediad gyda chaffaeliad; nid yw'r nodiadau hyn yn cwmpasu'r rheolau hynny'n fanwl. Mae Taflen Gymorth 284 *Shares and Capital Gains Tax* yn rhoi fwy o fanylion ond yn gyffredinol:

- caiff cyfranddaliadau a gaffaelwyd ar ôl 5 Ebrill 1982 a chyn 6 Ebrill 1998 eu trin fel un ased, cronfa o gyfranddaliadau, os ydynt yn yr un dosbarth, yn yr un cwmni ac wedi eu caffael o dan yr un amodau
- bydd cyfranddaliadau a gaffaelir rhwng 7 Ebrill 1965 a 5 Ebrill 1982 yn ffurfio cronfa ar wahân
- ni chaiff cyfranddaliadau a gaffaelwyd ar ôl 6 Ebrill 1998 eu cynnwys mewn cronfa, ond caiff rhai a gaffaelir ar yr un diwrnod eu trin fel un caffaeliad (gyda rhai eithriadau).

Lwfans mynegeio

Mae'r lwfans mynegeio yn hafal i'r swm y byddai cost eich ased wedi codi petai ei werth wedi cynyddu yn unol â chwyddiant rhwng yr amser y'i gaffaelwyd gennych, neu os ydy'n hwyrach, 31 Mawrth 1982, ac Ebrill 1998. Does dim lwfans mynegeio ar asedion a gaffaelwyd ar ôl 31 Mawrth 1998. Gellir defnyddio unrhyw lwfans a gronnodd hyd at Ebrill 1998 ar gyfer gwarediadau ar ôl y dyddiad hwnnw.

Os oeddech yn berchen ar ased ym Mawrth 1982, cyfrifir lwfans mynegeio ar yr uchaf o gost caffael a'r gwerth ar 31 Mawrth 1982 – oni bai eich bod wedi gwneud 'dewis' *adseilio'* pan gaiff ei seilio ar werth 31 Mawrth 1982. Gall mynegeio ostwng eich enillion i ddim, ond ni all greu neu gynyddu colled.

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Gallwch gyfrifo eich lwfans mynegeio trwy luosi cost yr ased gyda'r ffactor mynegeio am y mis a'r flwyddyn pan gaffaeloch yr ased. Lluoswch unrhyw gostau gwelliant a dalwyd ar ôl ei gaffael gyda'r ffactor mynegeio ar gyfer y mis a'r flwyddyn pan oedd y taliad am y gwelliannau yn ddyledus. Defnyddiwch y tabl ffactorau mynegeio ar dudalen CGN 7.

Er enghraifft, os gwnaethoch wario ym mis Mehefin 1989, chwiliwch ar draws y colofnau Mis i ddod o hyd i Fehefin ac yna chwiliwch i lawr y golofn nes i chi ddod o hyd i'r rhes ar gyfer 1989. Eich ffactor mynegeio ar gyfer Mehefin 1989 fydd 0.409.

Blwyddyn	Mis Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
1982			1.047	1.006	0.992	0.987	0.986	0.985	0.987	0.977	0.967	0.971
1983	0.968	0.960	0.956	0.929	0.921	0.917	0.906	0.898	0.889	0.883	0.876	0.871
1984	0.872	0.865	0.859	0.834	0.828	0.823	0.825	0.808	0.804	0.793	0.788	0.789
1985	0.783	0.769	0.752	0.716	0.708	0.704	0.707	0.703	0.704	0.701	0.695	0.693
1986	0.689	0.683	0.681	0.665	0.662	0.663	0.667	0.662	0.654	0.652	0.638	0.632
1987	0.626	0.620	0.616	0.597	0.596	0.596	0.597	0.593	0.588	0.580	0.573	0.574
1988	0.574	0.568	0.562	0.537	0.531	0.525	0.524	0.507	0.500	0.485	0.478	0.474
1989	0.465	0.454	0.448	0.423	0.414	0.409	0.408	0.404	0.395	0.384	0.372	0.369
1990	0.361	0.353	0.339	0.300	0.288	0.283	0.282	0.269	0.258	0.248	0.251	0.252
1991	0.249	0.242	0.237	0.222	0.218	0.213	0.215	0.213	0.208	0.204	0.199	0.198
1992	0.199	0.193	0.189	0.171	0.167	0.167	0.171	0.171	0.166	0.162	0.164	0.168
1993	0.179	0.171	0.167	0.156	0.152	0.153	0.156	0.151	0.146	0.147	0.148	0.146
1994	0.151	0.144	0.141	0.128	0.124	0.124	0.129	0.124	0.121	0.120	0.119	0.114
1995	0.114	0.107	0.102	0.091	0.087	0.085	0.091	0.085	0.080	0.085	0.085	0.079
1996	0.083	0.078	0.073	0.066	0.063	0.063	0.067	0.062	0.057	0.057	0.057	0.053
1997	0.053	0.049	0.046	0.040	0.036	0.032	0.032	0.026	0.021	0.019	0.019	0.016
1998	0.019	0.014	0.011									

Colledion caniataol

Os ydy cyfanswm costau ased yn uwch na'r derbyniadau gwaredu byddwch wedi gwneud colled. Fel arfer rhaid gwneud cais am golledion os ydynt i'w cyfrif yn rhai caniataol (gweler isod). Gellir didynnu cyfanswm colledion caniataol 2007-08 o gyfanswm yr enillion trethadwy am y flwyddyn (cyn rhyddhad mynegeio). Cyfyngir ar rai colledion a elwir yn *golledion rhwystredig* (gweler tudalen CGN16), y gellir eu gosod yn erbyn enillion o fath penodol. Ac ni all unrhyw golled sy'n deillio o ganlyniad i gynllun osgoi treth fod yn golled ganiataol.

Os ydy'r colledion yn uwch na'r enillion, bydd gennych golledion i'w cario ymlaen i'w gosod yn erbyn enillion yn y dyfodol. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig gallwch wneud cais i osod y golled yn erbyn incwm o'r un flwyddyn neu'r flwyddyn flaenorol (Mae fwy o wybodaeth i'w gael yn Nhaflen Gymorth 286 *Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you have subsribed for in qualifying trading companies* a Thaflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax*).

Pan fyddwch yn gosod colledion a ddygwyd ymlaen yn erbyn enillion mewn blwyddyn ddiweddarach (ar ôl gosod colledion o'r un flwyddyn, yn gyntaf), dylech ddefnyddio digon o golledion a ddygwyd ymlaen yn unig i ostwng yr enillion, cyn rhyddhad meinhau, i'r swm blynyddol a eithrir.

Rhaid defnyddio colledion a ddygwyd ymlaen o 1996-97 a blynyddoedd diweddarach cyn gosod colledion o 1995-96 a blynyddoedd cynharach.

Mewn rhai amgylchiadau prin gallwch gario colledion yn ôl i'w gosod yn erbyn enillion blynyddoedd cynharach. Os hoffech wybod rhagor ynghylch cario colledion yn ôl, neu os oes gennych golledion masnachu sy'n uwch na'ch incwm trethadwy (gweler Taflen Gymorth 227 *Losses*) ac rydych am osod rhai colledion neu'r holl golledion hynny yn erbyn eich enillion cyfalaf, cysylltwch â ni.

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Mae'n rhaid hawlio colledion a wnaed ers 1996-97 o fewn pum mlynedd a deg mis o ddiwedd y flwyddyn dreth y maent yn deillio ynddi. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf* eich Ffurflen Dreth gan wneud eich cais/ceisiadau'n glir yn y cyfrifiad a amgaeir gennych. Y dyddiad diweddaraf ar gyfer hawlio colledion 2007-08 yw 31 Ionawr 2014. Nid oedd rhaid hawlio colledion a wnaed yn 1995-96 a blynyddoedd cynharach – cânt eu dwyn ymlaen bob blwyddyn tan iddynt gael eu defnyddio (ond dim ond ar ôl i golledion 1996-97 a blynyddoedd diweddarach gael eu defnyddio).

Caiff colledion eu gosod yn erbyn enillion yn y modd mwyaf manteisiol i chi. Felly, dylech eu gosod yn erbyn enillion y mae ganddynt y gyfradd ganrannol uchaf yn weddill, ar ôl defnyddio rhyddhad meinhau. (Ond mewn gwirionedd byddwch yn gosod eich colledion yn erbyn eich enillion cyn defnyddio rhyddhad meinhau). Er enghraifft, os ydych wedi gwerthu dau ased ac o ganlyniad mae enillion yn codi, ac ar ôl caniatáu rhyddhad meinhau, mae 95% (weithiau cyfeirir ato fel y gyfradd meinhau) o un ennill yn drethadwy a 85% o'r llall, dylech osod eich colledion yn erbyn y 95% yn gyntaf. Gallwch ddefnyddio'r tabl 'Dyrannu colledion' ar dudalen CGN 18 i'ch helpu.

Os oes gennych enillion personol yn ogystal ag enillion priodoledig o ymddiriedolaeth, pan ellir gwrthbwyso colledion (byddwch yn gwybod os ydy hyn yn briodol i chi) rhaid i chi wrthbwyso eich colledion yn erbyn colledion personol yn gyntaf ac yna yn erbyn unrhyw enillion priodoledig o ymddiriedolaeth os oes colledion gennych ar ôl. Os ydy hwn yn gymwys i chi mae arweiniad pellach ar gael yn Nhaflen Gymorth 277 *Trusts with settlor interest and trusts for the vulnerable: taper and losses.*

Ni allwch ddidynnu colledion personol oddi wrth enillion ymddiriedolaeth nas sefydlwyd yn y DU, a briodolwyd i chi am eich bod yn fuddiolwr ac wedi derbyn taliadau neu fuddiannau cyfalaf. Dylech gynnwys enillion o'r fath ym mlwch 32 gan nodi unrhyw swm ychwanegol o dreth ym mlwch 9. Gall Taflen Gymorth 301 *Calculation of the increase in tax charge on capital gains from non resident, dual resident and immigrating trusts* eich helpu i gwblhau'r blychau hyn.

Rhyddhad meinhau

Mae'r nodiadau hyn yn esbonio'n fyr sut caiff rhyddhad meinhau ei gyfrifo ond mae mwy o fanylion ar gael yn Nhaflen Gymorth 279 *Taper relief.*

Mae rhyddhad meinhau yn gostwng swm yr ennill cyfalaf i'w drethu pan werthir ased, yn unol â'r nifer o 'flynyddoedd cyfan' y buoch yn berchen ar yr ased ar ôl 5 Ebrill 1998. Gelwir y cyfnod hwn yn 'gyfnod daliad cymwys'. Yr hwyaf y buoch yn berchen ar yr ased, lleiaf fydd canran yr ennill a drethir. Mae cyfradd y rhyddhad meinhau yn dibynnu ar p'un a oedd yr ased yn ased busnes ai peidio.

Mae blwyddyn gyfan yn golygu cyfnod parhaol o 12 mis – anwybyddir rhannau o flwyddyn. Cyfrifwch y cyfnod o 6 Ebrill 1998 yn unig, ar gyfer asedion yr oeddech yn berchen arnynt cyn y dyddiad hwnnw. Os gwerthwch ased ar ddyddiad pen-blwydd ei gaffael cewch eich ystyried fel petaech wedi ei berchen am y flwyddyn gyfan. Er enghraifft, os prynoch ased ar 4 Mehefin 2005 daeth y flwyddyn lawn gyntaf i ben ar 4 Mehefin 2006.

Yn ogystal â hyn, gallai asedion nad ydynt yn ymwneud â'r busnes (gweler tudalen CGN 9) a gaffaelwyd cyn 17 Mawrth 1998, fod yn gymwys am flwyddyn ychwanegol – y flwyddyn fonws. Felly pan fyddwch yn cyfrifo'r cyfnod cymhwyso ar gyfer ased nad yw'n ymwneud â'r busnes yr oeddech yn ei berchen ar 17 Mawrth 1998, dylech ychwanegu un flwyddyn at nifer y blynyddoedd cyfan yn y cyfnod daliad cymwys o 6 Ebrill 1998. Mae Taflen Gymorth 279 *Taper relief* yn esbonio hefyd y gellir gostwng y cyfnod daliad cymwys mewn rhai achosion.

Asedion nad ydynt yn ymwneud â'r busnes at ddibenion rhyddhad meinhau

At ddibenion rhyddhad meinhau mae ased nad yw'n ymwneud â'r busnes yn golygu unrhyw ased nad ydy'n ased busnes (gweler isod). Gwelir canran yr ennill i'w drethu ar gyfer gwarediadau asedion nad ydynt yn ymwneud â'r busnes yn 2007-08 yn y tabl isod.

Nifer y blynyddoedd cyfan y daliwyd yr ased (gan gynnwys unrhyw flwyddyn fonws)	Canran yr ennill trethadwy
1	100
2	100
3	95
4	90
5	85
6	80
7	75
8	70
9	65
10	60

Asedion busnes

Ers cyflwyno rhyddhad meinhau yn 1998 newidiwyd diffiniad ased busnes nifer o weithiau. Bydd yn rhaid i chi ystyried pryd, yn ystod y cyfnod perthnasol y berchenogaeth, roedd yr ased yn ased busnes, yn unol â'r diffiniad priodol ar gyfer y cyfnod roeddech yn berchen ar yr ased. Ar gyfer 2007-08 y cyfnod priodol fydd y cyfnod y buoch yn berchen ar yr ased ar ôl 5 Ebrill 1998 hyd at y dyddiad y'i gwaredwyd gennych yn 2007-08. Mae mwy o fanylion yn Nhaflen Gymorth 279 *Taper Relief.* Mae'r Daflen Gymorth yn esbonio hefyd y gellir gostwng y cyfnod daliad cymwys mewn rhai achosion.

Rhwng 6 Ebrill 1998 a 5 Ebrill 2000 ystyriwyd ased busnes:

- yn ased (heblaw cyfranddaliadau a gwarantau) a ddefnyddiwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion y fasnach, y proffesiwn neu'r alwedigaeth y buoch yn ymwneud â hi ar eich pen eich hun, neu mewn partneriaeth neu a gafodd ei chynnal gan eich cwmni cymhwysol
- yn ased (heblaw cyfranddaliadau a gwarantau) a ddaliwyd ar gyfer swydd neu gyflogaeth gymhwysol gyda chyflogwr a oedd yn masnachu, a disgwylid i chi ymroi o'ch amser yn sylweddol tuag ati
- unrhyw gyfranddaliadau neu warantau a ddaliwyd gennych yn eich cwmni cymhwysol.

Bydd cwmni yn gwmni cymhwysol i chi pan:

- roedd yn gwmni masnachu (neu'n gwmni daliol ar grŵp masnachu), ac
- roeddech yn berchen cyfranddaliadau a oedd yn rhoi'r hawl i chi arfer o leiaf 25% o'r hawliau pleidleisio yn y cwmni, neu
- roeddech yn berchen cyfranddaliadau a oedd yn rhoi'r hawl i chi arfer o leiaf 5% o'r hawliau pleidleisio yn y cwmni ac roeddech yn swyddog neu'n gyflogai a oedd yn gweithio'n amser llawn yn y cwmni neu'r grŵp hwnnw.

Rhwng 6 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2004 arhosodd diffiniad ased busnes yr un fath ond newidiodd diffiniad 'cwmni cymhwysol':

- ar gyfer cwmni masnachu (neu gwmni daliol ar grŵp masnachu), un a oedd ei gyfranddaliadau
  - heb eu rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn rhywle yn y byd, neu,
  - os ydynt wedi'u rhestru, pan rydych naill ai
    - yn swyddog neu'n gyflogai'r cwmni neu'r grŵp, neu
    - rydych yn dal cyfranddaliadau sy'n rhoi'r hawl i chi arfer o leiaf 5% o'r hawliau pleidleisio yn y cwmni hwnnw.

- ar gyfer cwmni nad yw'n gwmni masnachu (neu'n gwmni daliol ar grŵp nad yw'n masnachu), un lle'r ydych
  - yn swyddog neu'n gyflogai'r cwmni (neu'r grŵp), ac
  - nid oes gennych fuddiant perthnasol yn y cwmni neu gwmni sy'n ei reoli, gweler Taflen Gymorth 279 *Taper Relief* am ragor o fanylion.

O 6 Ebrill 2004 mae ased (heblaw am ased a ddefnyddir ar gyfer masnach a gynhelir gan gwmni neu gyfranddaliadau a gwarantau mewn cwmni) yn ased busnes pan gaiff ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer masnach a gyflawnir gan:

- unigolyn, neu
- ymddiriedolwyr setliad, neu
- cynrychiolwyr personol person ymadawedig, neu
- partneriaeth sy'n cynnwys un o'r uchod fel partner.

Os oedd yr ased yn ased a ddefnyddiwyd naill ai gan gwmni ar gyfer ei fasnach, neu gyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni, rhaid ystyried y cwmni hwnnw fel eich 'cwmni cymhwysol'. Arhosodd y diffiniad hwn yr un fath ers 6 Ebrill 2000.

Gwelir canran yr ennill i'w drethu pan waredir asedion busnes yn 2007-08 yn y tabl canlynol.

Nifer y blynyddoedd cyfan y daliwyd yr ased	Canran yr ennill trethadwy
1	50
2 neu ragor	25

Gall ased ddod neu beidio â bod yn ased busnes yn ystod eich perchnogaeth ohono. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y defnyddir yr ased (heblaw am gyfranddaliadau), neu yn achos cyfranddaliadau p'un a yw'r cwmni yn parhau yn gwmni cymhwysol i chi, neu oherwydd newidiadau yn y diffiniadau o'r hyn a ystyrir yn ased busnes. Os felly, efallai y bydd angen i chi ddosrannu'r ennill yn ôl y defnydd busnes a defnydd nad yw'n ymwneud â'r busnes a defnyddio'r gyfradd feinhau briodol ar gyfer pob rhan o'r ennill. Fodd bynnag, seilir y gyfradd feinhau ar gyfnod daliad cymwys cyfan eich perchenogaeth o hyd.

Os oes gennych ased sy'n cymhwyso yn rhannol fel ased busnes a'n rhannol fel ased nad yw'n ymwneud â busnes yn y cyfnod perchnogaeth berthnasol, bydd angen dosrannu'r ennill wrth waredu'r ased, rhwng y ddwy elfen. Bydd rhan o'r ennill yn gymwys am ryddhad meinhau ar gyfer ased busnes a bydd y rhan arall yn cymhwyso ar gyfer rhyddhad meinhau nad yw'n ymwneud â busnes. Mae Taflen Gymorth 279 *Taper relief* yn rhoi enghreifftiau ynghylch sut i gyfrifo'r ennill a'r rhyddhad meinhau ar asedion o'r fath.

Eich cyfrifiannau

Mae'r ffordd yr ewch ati i baratoi eich cyfrifiannau i fyny i chi ond efallai y bydd yn haws os dilynwch y dull a amlinellir yma. Gallwch ddefnyddio'r Daflen Waith ar dudalen CGN 19; defnyddiwch gynifer o gopïau ag y sydd angen arnoch. Mae'r Daflen Waith ar gyfer cyfrifiannau enillion neu golledion syml, a gellir ei defnyddio pan waredir tir neu asedion eraill. Byddwch yn gallu defnyddio'r Daflen Waith dim ond pan fydd yr un gyfradd meinhau yn gymwys i'r ennill cyfan. Gallwch ei defnyddio pan waredir cyfranddaliadau hefyd, ond dim ond os ydy ar gyfer gwaredu daliad cyfan o ddosbarth arbennig o gyfranddaliadau a phan fydd mynegeio neu ryddhad meinhau yn ddyledus ar yr ennill, bydd yr un gyfradd fynegeio neu ryddhad meinhau yn gymwys i'r holl gyfranddaliadau. Ni fyddwch yn gallu defnyddio'r daflen waith os caffaelwyd yr ased drwy arfer opsiwn neu os ydy'r gwaredu yn warediad rhannol.

1. Dechreuwch gyda disgrifiad llawn o'r ased (er enghraifft, nifer a math y cyfranddaliadau a werthwyd neu gyfeiriad yr eiddo neu'r tir) a *dyddiad y gwerthiant*. Os oedd y gwaredu rhwng personau cysylltiol, dylech nodi hynny.

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

2. Yna, nodwch *dderbyniadau'r gwerthiant* neu'r *gwerth marchnad* fel y bo'n briodol, gan ddidynnu mân gostau gwerthu'r ased i roi'r derbyniadau net ar gyfer y gwarediad.
3. Nawr nodwch ddyddiad caffael yr ased a chyfrifwch yr hyn a gostiodd yr ased i chi yn ystod cyfnod eich perchenogaeth; hynny yw, cost caffael (wedi'i ostwng gan unrhyw gais cynharach am ryddhad treth, os yn briodol) yn ogystal ag unrhyw *fân dreuliau caffael yr ased a chostau gwelliannau.* Dylech gyfrifo'r lwfans mynegeio sy'n ddyledus hefyd (gweler tudalen CGN 6).
4. Tynnwch gyfanswm y costau a'r lwfans mynegeio o dderbyniadau net y gwarediad i gyfrifo'r ennill neu'r golled. (Os bydd y mynegeio yn uwch na'r ennill, dylech ostwng yr ennill i 'dim'. Gall mynegeio ostwng ennill i 'dim' ond ni all greu neu gynyddu colled).
5. Nodwch unrhyw ryddhad enillion cyfalaf (gweler tudalennau CGN 16 a CGN 17) rydych yn eu hawlio neu ddewisiadau a dangoswch yr ennill cyfalaf ar ôl y rhyddhad neu'r dewis.
6. Efallai y bydd angen i chi gynnwys colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach, rydych yn eu didynnu o'r enillion yn y flwyddyn.
7. Didynnwch y colledion o'r enillion i roi'r enillion trethadwy. Defnyddiwch golledion y flwyddyn cyn y colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach. Defnyddiwch dim ond digon o golledion a ddygwyd ymlaen i ostwng cyfanswm eich holl enillion i lawr i'r swm blynyddol a eithrir am y flwyddyn. Os, ar ôl caniatáu'r rhyddhad a'r colledion bydd gennych enillion o hyd, gallwch eu gostwng gan swm y rhyddhad meinhau sy'n ddyledus (dylech gynnwys cyfradd y rhyddhad meinhau yn eich cyfrifiant a nodi p'un a ydy'n ased busnes ai peidio) ar gyfer pob ennill. Mae'r nodiadau uchod yn esbonio sut i wrthbwyso'r colledion yn y modd mwyaf manteisiol.

Cwblhau Tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf*

Hoffem petaech nawr yn nodi manylion o'ch cyfrifiannau i'r tudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf*, drwy gwblhau yn gyntaf o dan y tair adran ar wahân ar gyfer:

- *cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd* (blychau 16 - 21)
- *cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd* (blychau 22 - 27)
- eiddo ac asedion ac enillion eraill (blychau 28 - 34)

ac yn ail, drwy gwblhau'r adran ar ddechrau'r ffurflen (blychau 3 - 15).

Mae eich cyfrifiant ar ei ben ei hun yn annigonol (felly peidiwch â chroesi trwy'r tudalennau neu eu nodi 'gweler yn atodedig').

Crynodeb o'r cyfrifiannau a amgaewyd gennych

3 **Cyfanswm yr enillion yn y flwyddyn, cyn colledion a rhyddhad meinhau**
Nodwch gyfanswm eich holl enillion cyn didynnu unrhyw golledion neu cyn defnyddio rhyddhad meinhau ond ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ryddhad, dewisiadau neu hawliadau (ar wahân i'r swm blynyddol a eithrir a rhyddhad meinhau) (blychau 19 + 25 + 31 + 32).

4 **Cyfanswm y colledion am y flwyddyn**
Nodwch gyfanswm eich holl golledion am y flwyddyn, a gymerwyd o'ch cyfrifiannau, gan gynnwys unrhyw *golledion rhwystredig*. Os oes gennych *golledion rhwystredig* dylech gadw cofnod ar wahân ar gyfer pob colled rwystredig a gariwyd ymlaen i flynyddoedd diweddarach i sicrhau y cânt eu didynnu'n gywir o enillion yn y dyfodol. Dylech hefyd amlygu unrhyw golledion sy'n rhwystredig a dweud pam eu bod yn rhwystredig.

5 **Colledion a ddygwyd ymlaen ac a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn**
Nodwch swm y colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach ac a ddefnyddir yn y flwyddyn. Byddwch yn defnyddio colledion a ddygwyd ymlaen dim ond er mwyn gostwng yr enillion i'r swm blynyddol a eithrir am y flwyddyn. Gellir defnyddio *colledion rhwystredig* a ddygwyd ymlaen dim ond ar gyfer eu gwrthbwyso yn erbyn mathau penodol o enillion.

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

6 **Cyfanswm yr enillion ar ôl tynnu colledion a rhyddhad meinhau ond cyn y swm blynyddol a eithrir**
Fel arfer, y ffigur i'w nodi yma bydd y swm ym mlwch 3 llai'r swm ym mlychau 4 + 5, llai unrhyw ryddhad meinhau sy'n ddyledus. Dylid gwrthbwyso colledion yn erbyn enillion cyn rhyddhad meinhau ond gweler tudalen CGN 8 sy'n esbonio sut y defnyddir colledion yn erbyn enillion pan fydd rhyddhad meinhau yn ddyledus. Ceir cyfyngiadau ar y defnydd o *golledion rhwystredig* (gweler tudalen CGN 16).

Bydd enillion ymddiriedolwyr a briodolir i chi fel buddiolwr ymddiriedolaethau nad ydynt wedi eu sefydlu yn y DU neu rai o ymddiriedolaethau pan fo buddiant gan y setlwr, pan na ellir defnyddio colledion personol, yn eithriadau. Mae fwy o wybodaeth yn Nhaflen Gymorth 277 *Trusts and settlor interest and trusts for the vulnerable: taper and losses.*

7 **Y swm blynyddol a eithrir**
Dyma'r *swm blynyddol a eithrir* am y flwyddyn dan sylw ac rydym wedi cwblhau'r blwch hwn ar eich rhan.

8 **Enillion trethadwy net (blwch 6 llai blwch 7) – ond gadewch yn wag os ydy blwch 7 yn fwy na blwch 6**
Dylai'r swm yn y blwch hwn fod y swm ym mlwch 6 llai'r swm ym mlwch 7. Os ydy'r *swm blynyddol a eithrir* yn fwy na'r ffigur ym mlwch 6 yna gadewch y blwch hwn yn wag. Y swm yn y blwch hwn fydd y swm y codir Treth Enillion Cyfalaf arno (ychwanegir unrhyw swm ym mlwch 9 at hwn).

9 **Rhwymedigaeth ychwanegol mewn perthynas ag ymddiriedolaethau sydd heb eu sefydlu yn y DU neu sydd â phreswyl deublyg**
Ni fydd y blwch hwn yn gymwys i lawer o bobl. Y swm yw nodi yn y blwch hwn yw swm ychwanegol o dreth. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu hwn oherwydd eich bod wedi derbyn neu cewch eich trin fel petaech wedi derbyn, cyfalaf neu fudd sy'n deillio o ymddiriedolaethau sydd heb eu sefydlu yn y DU neu sydd â phreswyl deublyg. Os ydy'n gymwys i chi, gofynnwch am Daflen Gymorth 301 *Calculation of the increase in tax charge on capital gains from non-resident, dual resident and immigrating trusts* er mwyn cyfrifo swm y dreth i'w roi yn y blwch hwn.

10 **Colledion sydd ar gael i'w cario ymlaen i flynyddoedd diweddarach**
Nodwch yma gyfanswm yr holl golledion nas defnyddiwyd sydd ar gael yn y flwyddyn ac o flynyddoedd cynharach, i'w cario ymlaen i flynyddoedd diweddarach. Dylech gynnwys unrhyw golledion rhwystredig nas defnyddiwyd. I sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir mewn blynyddoedd i ddod dylech gadw cofnod ar wahân ar gyfer pob colled rhwystredig nas defnyddiwyd. Dylech gadw cofnodion ar wahân hefyd o'r colledion nas defnyddiwyd a hawliwyd ar gyfer 1996-97 a blynyddoedd diweddarach ac ar gyfer 1995-96 a blynyddoedd cynharach.

11 **Colledion a ddefnyddiwyd yn erbyn ennill o flwyddyn gynharach**
Mae'r blwch hwn yn gymwys mewn amgylchiadau prin iawn. Esbonnir yr achos mwyaf cyffredin yn Nhaflen Gymorth 282 *Death, personal representatives and legatees.* Ceir fwy o wybodaeth ynglŷn â'r amgylchiadau pan ellir cario colledion yn ôl i flynyddoedd cynharach yn ein llawlyfr ar gyfer enillion cyfalaf yn **www.hmrc.gov.uk**

12 *a* 13 Ni fydd y blychau hyn yn gymwys i'r rhan fwyaf o bobl oherwydd ni allwch fel arfer wrthbwyso colledion cyfalaf yn erbyn incwm. Mae fwy o wybodaeth ynglŷn â'r amgylchiadau pan fyddwch yn gallu yn Nhaflen Gymorth 286 *Negligible value claims and Income Tax losses on disposals you have subscribed for in qualifying trading companies* a Thaflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax.*

14 **Colledion incwm o 2007-08 a osodwyd yn erbyn enillion**
Ni fydd y blwch hwn yn gymwys i'r rhan fwyaf o bobl. Nodwch yma'r swm ar gyfer unrhyw golledion masnachu caniataol, colledion sy'n deillio o osodiadau gwyliau wedi'u dodrefnu, gwariant ôl derfynu neu ddidyniadau ôl gyflogaeth rydych am eu hawlio yn erbyn enillion trethadwy.

Dylech nodi'r isaf o'r canlynol yn unig:

- cyfanswm y colledion y gallwch eu hawlio, ac
- y swm sydd ei angen i ostwng ffigurau'r enillion i sero, ar ôl gwrthbwyso'r colledion cyfalaf am y flwyddyn.

Ceir fwy o wybodaeth yn Nhaflen Gymorth 227 *Losses*.

Cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd

16 **Nifer y gwarediadau**
Nodwch yma nifer y gwarediadau yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2008 o gyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd. At ddibenion y blwch hwn dylech gyfrif holl warediadau cyfranddaliadau a gwarantau o'r un dosbarth yn yr un cwmni a wnaed ar yr un diwrnod fel yr un gwarediad. Anwybyddwch warediadau na wneir dros eich hun, er enghraifft, fel ymddiriedolwr.

17 **Derbyniadau'r gwaredu**
Nodwch gyfanswm y derbyniadau gwaredu ar gyfer yr holl gyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd cyn caniatáu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Mewn rhai amgylchiadau dylid disodli'r swm a gewch ac a gynhwysir yn y cyfrifiad gan *werth marchnad* yr ased a waredwyd gennych.

18 **Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu'r ased), a mynegeio**
Nodwch gyfanswm y costau caniataol a fydd fel arfer yn cynnwys pris prynu'r ased, unrhyw *fân gostau sydd ynghlwm wrth y prynu a'r gwerthu, costau gwelliannau* ac unrhyw lwfans mynegeio.

19 **Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion a rhyddhad meinhau**
Nodwch yma gyfanswm yr holl enillion ar gyfer y *cyfranddaliadau a'r gwarantau a restrwyd.* Dylai'r ffigur hwn gynrychioli'r enillion ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau ond cyn didynnu unrhyw golledion a chyn defnyddio rhyddhad meinhau.

20 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydych yn hawlio neu'n gwneud dewis**
Rhowch 'X' yn y blwch hwn os caiff unrhyw warediad yn yr adran hon ei effeithio gan hawliad neu ddewis o ran Treth Enillion Cyfalaf.

21 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydy'ch cyfrifiannau'n cynnwys amcangyfrifon neu brisiadau**
Os rhowch 'X' yn y blwch hwn dylech roi manylion pellach yn eich cyfrifiant, gweler tudalen CGN 4.

Cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd

22 **Nifer y gwarediadau**
Nodwch yma nifer y gwarediadau yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2008 o *gyfranddaliadau* a gwarantau *nas rhestrwyd.* At ddibenion y blwch hwn dylech gyfrif holl warediadau cyfranddaliadau a gwarantau o'r un dosbarth yn yr un cwmni a wnaed ar yr un diwrnod fel yr un gwarediad. Anwybyddwch warediadau na wneir dros eich hun, er enghraifft, fel ymddiriedolwr.

23 **Derbyniadau'r gwaredu**
Nodwch gyfanswm y derbyniadau gwaredu ar gyfer yr holl gyfranddaliadau a gwarantau nas restrwyd cyn caniatáu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Mewn rhai amgylchiadau dylid disodli'r swm a gewch ac a gynhwysir yn y cyfrifiad gan *werth marchnad* yr ased a waredwyd gennych.

24 **Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu'r ased), a mynegeio**
Nodwch gyfanswm y costau caniataol a fydd fel arfer yn cynnwys pris prynu'r ased, unrhyw *fân gostau sydd ynghlwm wrth brynu neu wella'r ased* ac unrhyw lwfans mynegeio.

25 **Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion a rhyddhad meinhau**
Nodwch yma gyfanswm yr holl enillion ar gyfer y *cyfranddaliadau a'r gwarantau nas rhestrwyd.* Dylai'r ffigur hwn gynrychioli'r enillion ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau ond cyn didynnu unrhyw golledion a chyn defnyddio rhyddhad meinhau.

26 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydych yn hawlio neu'n gwneud dewis**
Rhowch 'X' yn y blwch hwn os caiff unrhyw warediad yn yr adran hon ei effeithio gan hawliad neu ddewis o ran Treth Enillion Cyfalaf.

27 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydy'ch cyfrifiannau'n cynnwys amcangyfrifon neu brisiadau**
Os rhowch 'X' yn y blwch hwn dylech roi manylion pellach yn eich cyfrifiant – gweler tudalen CGN 4.

Eiddo ac asedion ac enillion eraill

28 **Nifer y gwarediadau**
Nodwch yma nifer y gwarediadau yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2008 o eiddo ac asedion eraill. Ni ystyrir enillion priodoledig yn warediadau ac ni ddylid eu cynnwys yng nghyfanswm y gwarediadau a gynhwysir yma.

29 **Derbyniadau'r gwaredu**
Nodwch gyfanswm y derbyniadau gwaredu ar gyfer yr holl eiddo ac asedion eraill cyn caniatáu rhyddhad neu hawliadau. Mewn rhai amgylchiadau dylid disodli'r swm a gewch ac a gynhwysir yn y cyfrifiad gan *werth marchnad* yr ased a waredwyd gennych.

30 **Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu'r ased), a mynegeio**
Nodwch gyfanswm y costau caniataol a fydd fel arfer yn cynnwys pris prynu'r ased, unrhyw *fân gostau sydd ynghlwm wrth y prynu a'r gwerthu, costau gwelliannau* ac unrhyw lwfans mynegeio.

31 **Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion a rhyddhad meinhau**
Nodwch yma gyfanswm yr holl enillion ar gyfer gwaredu eiddo ac asedion eraill. Dylai'r ffigur hwn gynrychioli'r enillion ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau ond cyn didynnu unrhyw golledion a chyn cymhwyso rhyddhad meinhau. Dylech gynnwys yn ogystal:
- enillion priodoledig pan ellir gwrthbwyso colledion personol (gweler tudalen CGN 8 am fwy o wybodaeth)
- enillion blynyddoedd cynharach sy'n dod yn drethadwy yn y flwyddyn hon (gweler CGN 17 am fwy o wybodaeth), ac
- enillion wrth adennill rhai benthyciadau a thaliadau gwarantu penodol (gweler Taflen Gymorth 296 *Debts and Capital Gains Tax*).

Sylwer nad yw enillion yn y rhestr uchod yn codi o ganlyniad i waredu ased yn y flwyddyn ac ni ddylid cynnwys ffigur ar gyfer enillion o'r fath ym mlwch 29.

Cysylltwch
- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

32 **Enillion priodoledig pan ni ellir gwrthbwyso colledion personol**
Mae'r blwch hwn yn gymwys mewn amgylchiadau prin iawn. Nodwch swm unrhyw enillion gan ymddiriedolwyr a briodolir i chi fel buddiolwr ymddiriedolaethau nad ydynt wedi ei sefydlu yn y DU neu sy'n deillio o ymddiriedolaethau pan fo buddiant gan y setlwr a phan na ellir gwrthbwyso colledion personol. Dylid nodi enillion priodoledig pan ellir gwrthbwyso colledion personol ym mlwch 31 (gweler Taflen Gymorth 277 *Trusts with settlor interest and trusts for the vulnerable: Taper and losses*).

33 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydych yn hawlio neu'n gwneud dewis**
Rhowch 'X' yn y blwch hwn os caiff unrhyw warediad yn yr adran hon ei effeithio gan hawliad neu ddewis o ran Treth Enillion Cyfalaf a wneir yn y Ffurflen Dreth hon.

34 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydy'ch cyfrifiannau'n cynnwys amcangyfrifon neu brisiadau**
Os rhowch 'X' yn y blwch hwn rhowch fanylion pellach yn eich cyfrifiant - gweler CGN 4.

Os hoffech ychwanegu unrhyw wybodaeth at eich cyfrifiannau, dylech ei nodi yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 35. Anfonwch atom ynghyd â thudalennau Crynhoi Enillion Cyfalaf eich Ffurflen Dreth, eich cyfrifiannau a'ch prisiadau, yn ogystal â'ch ffurflenni ar gyfer gwneud ceisiadau.

Rhestr termau

Swm blynyddol a eithrir
Ni fyddwch yn talu Treth Enillion Cyfalaf ar £9,200 cyntaf eich enillion trethadwy (ar ôl didynnu colledion a defnyddio rhyddhad meinhau) am y flwyddyn dreth 2007-08. Gelwir y swm hwn y swm blynyddol a eithrir.

Dyddiad gwerthu
Os oedd y gwerthiant neu'r gwarediad trwy gontract, fel arfer dyddiad y gwerthiant fydd dyddiad y contract. Er enghraifft, rydych yn gwerthu tŷ drwy gyfnewid contractau ar 25 Mawrth 2007 ac yn cwblhau ar 9 Ebrill 2007; mae'r gwaredu yn digwydd yn y flwyddyn dreth 2006-07, nid 2007-08. Os yn anarferol mae'r contract yn un amodol, ac felly rhaid diwallu un neu ragor o amodau cyn i'r contract fod yn un cyfrwymol, dyddiad y gwerthiant fydd y dyddiad pan gyflawnir yr amod olaf.

Pan na fydd contract yn bodoli, dyddiad y gwerthiant fydd pan drosglwyddir y berchenogaeth. Neu, os cewch swm cyfalaf o'r ased ond ni fyddwch yn ei waredu, caiff y dyddiad pan dderbyniwch yr arian ei drin fel dyddiad y gwaredu.

Gwerth marchnad
Gwerth marchnad ydy'r pris y disgwylid yn rhesymol i ased gael ei werthu ar y farchnad agored ar y dyddiad y caiff ei waredu neu ei gaffael. Defnyddiwch y *gwerth marchnad* yn lle'r pris a gewch os gwnaethoch roi ased, ei werthu yn fwriadol am bris a oedd yn llai na'i werth llawn, neu os gwnaethoch ei waredu i *berson cysylltiol*. Bydd gwerth marchnad yn berthnasol hefyd pan fyddwch wedi caffael yr ased mewn amgylchiadau tebyg i'r gwarediadau uchod a bydd hefyd yn cynnwys achos pan fyddwch wedi gwneud dewis i adseilio (gweler tudalen CGN 5), os ydych wedi etifeddu'r ased neu wedi cael hawl absoliwt i eiddo setledig.

Ar gyfer cyfranddaliadau a gwarantau a restrir ar Restr Swyddogol Ddyddiol y Gyfnewidfa Stoc, y gwerth marchnad mewn amgylchiadau arferol ydy'r isaf o:
- ffigur un chwarter yn uwch na'r isaf o'r ddau bris yn y dyfyn bris ar gyfer y diwrnod perthnasol, ac
- y ffigur hanner ffordd rhwng y pris uchaf a'r pris isaf ar gyfer bargeinion a gofnodwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Derbyniadau'r gwerthu
Gallai derbyniadau gwerthiant neu warediad gynnwys:
- arian parod, sy'n daladwy nawr neu yn y dyfodol, neu unrhyw beth a ellir ei droi yn arian parod oni bai ei fod yn drethadwy fel incwm,
- gwerth ased a dderbyniwyd yn gyfnewid am yr ased a waredwyd gennych
- gwerth hawl i dderbyn taliadau yn y dyfodol pan nad ydych mewn sefyllfa i wybod y swm hwnnw ar ddyddiad y gwarediad.

Os gwyddoch yr hyn a gewch ar ôl dyddiad y gwarediad, dylech gynnwys y cyfanswm yn eich cyfrifiant nawr. (Os daw yn glir yn hwyrach nad ydych yn debyg o dderbyn peth o'r arian, gellir addasu'r cyfrifiad.) Os caiff y derbyniadau gwaredu a gynhwyswyd yn eich cyfrifiant eu talu mewn rhandaliadau dros gyfnod sy'n hwy na 18 mis efallai na fydd yn rhaid i chi dalu'r holl dreth nawr - dylech gysylltu â ni.

Mân gostau gwaredu/gwerthu a mân gostau caffael
Gallwch ddidynnu costau gwaredu a symiau sy'n ychwanegu at y gost o brynu ased cyhyd a'u bod mewn gwirionedd ar gyfer gwaredu neu gaffael yr ased. Mae'r costau'n cynnwys

- ffioedd, comisiwn neu daliad am gyngor proffesiynol
- cost trosglwyddo neu drawsgludiad
- Treth Stamp
- costau hysbysebu
- costau prisio er mwyn cyfrifo ennill wrth waredu.

Os oedd bywyd disgwyliadwy'r ased yn 50 mlynedd neu lai, gellir cyfyngu'r costau a'r treuliau caniataol i adlewyrchu gweddill bywyd yr ased.

Cost caffael
Cost caffael ased ydy'r swm a dalwch, neu mewn rhai achosion penodol, ei werth marchnad, er mwyn caffael yr ased. Os gwnaethoch greu'r ased eich hun, (er enghraifft, ewyllys da mewn busnes), costau creu'r ased, os oedd costau.

Costau gwelliannau
Cost gwella ased cyhyd a bod y gwelliant hwnnw yn parhau i gael ei adlewyrchu yn yr ased ar yr adeg y'i gwerthwyd.

Cyfranddaliadau a gwarantau eraill a restrwyd
At ddibenion cwblhau'r tudalennau hyn yn unig, mae 'cyfranddaliadau neu warantau a restrwyd' yn golygu unrhyw yn o'r canlynol:

- cyfranddaliadau neu warantau cwmni a oedd wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig trwy gydol yr amser yr oeddech yn eu perchen - gan anwybyddu unrhyw gyfnod pan gawsant eu hatal dros dro rhag cael eu rhestru - ewch i **www.hmrc.gov.uk** am fwy o fanylion
- cyfranddaliadau mewn cwmni a oedd yn gwmni buddsoddi penagored y DU trwy gydol y cyfnod yr oeddech yn eu perchen
- unedau mewn ymddiriedolaeth uned awdurdodedig, trwy gydol y cyfnod yr oeddech yn eu perchen.

Cyfranddaliadau nas rhestrwyd
At ddibenion y tudalennau hyn yn unig, unrhyw gyfranddaliadau neu warantau nad ydynt o fewn y diffiniad ar gyfer 'cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd ' a welir uchod.

Colledion rhwystredig
Y math mwyaf cyffredin o golled rwystredig yw colled sy'n codi wrth waredu i berson cysylltiol. Gellir gosod y colledion hyn yn unig yn erbyn enillion sy'n codi ar werthiadau i'r un person cysylltiol (gweler tudalen CGN 5). Colled rwystredig arall yw colled a drosglwyddir i chi gan ymddiriedolwr ar ôl 15 Mehefin 1999 pan fyddwch yn derbyn hawl absoliwt i eiddo setledig. Gellir gosod y colledion hyn yn erbyn enillion sy'n codi ar yr un ased neu ar ased sy'n deillio o'r ased hwnnw yn unig, a rhoddir blaenoriaeth i'r colledion hyn.

Rhyddhad Enillion Cyfalaf (a dewisiadau)

Rhaid gwneud cais ar gyfer ambell ryddhad a rhaid i chi ddatgan eich cais yn glir ar y cyfrifiant a amgaewch. Rhaid gwneud rhai ceisiadau ar ffurflen gais ar wahân y byddwch yn ei chwblhau a'i hamgáu gyda'ch Ffurflen Dreth ynghyd â'ch cyfrifiant. Gellir hawlio eraill, er enghraifft rhyddhad preswylfa preifat, heb yr angen i wneud cais. Mewn rhai achosion, efallai y byddwch am wneud 'dewis', er enghraifft ar gyfer adseilio. Rhaid i chi wneud eich dewis trwy ddatgan yn glir ar y cyfrifiant a amgaewch.

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Esbonnir rhai ohonynt yn fyr yn unig yma - cwmpesir y rhan fwyaf, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag asedion busnes, yn llawn yn ein Taflenni Cymorth.

Rhyddhad treigl - mae hwn yn caniatáu enillion wrth waredu asedion busnes i gael eu gohirio os bydd angen asedion yn eu lle. Mae Taflen Gymorth 290 *Business asset roll-over relief* yn esbonio hwn yn llawn ac yn cynnwys ffurflen gais.

Rhyddhad daliol ar roddion - mae hwn yn caniatáu gohirio enillion pan roddir rhai asedion penodol am lai na'u gwerth marchnad. Mae Taflen Gymorth 295: *Relief for gifts and similar transactions* yn esbonio hyn yn llawn ac yn cynnwys y ffurflen gais berthnasol sy'n rhaid i chi ei chwblhau.

Rhyddhad perthynas dibynnol - mae hwn yn caniatáu rhyddhad pan fyddwch yn gwaredu cartref a ddarparwyd gennych ar gyfer perthynas dibynnol cyn 6 Ebrill 1988. Os ydych yn hawlio'r rhyddhad hwn dylech nodi hyn yn glir yn eich cyfrifiant. Mae Taflen Gymorth 283 *Private residence relief* yn rhoi mwy o fanylion.

Rhyddhad haneru - mae hwn yn rhyddhau hanner yr ennill sy'n codi o ennill arall, a ohiriwyd yn flaenorol - gweler Taflen Gymorth 280 *Rebasing - assets held at 31 March 1982*. Os ydych yn hawlio'r rhyddhad hwn dylech nodi hyn yn glir yn eich cyfrifiant.

Gwaredu Cynllun Buddsoddiad Menter ac Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro - gweler Taflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Schemes and Capital Gains Tax* a Thaflen Gymorth 298 *Venture Capital Trusts and Capital Gains Tax* sy'n dweud wrthych sut i hawlio'r rhyddhad hwn.

Enillion na ellir eu trosglwyddo ac enillion sy'n dod yn drosglwyddadwy - mae'r ddau yn cyfeirio at warediadau a wnaed dramor, ac rydych naill ai yn gwneud cais i beidio cael eich trethu gan ei fod yn amhosibl trosglwyddo'r ennill i'r DU, neu rydych wedi gwneud cais yn flaenorol ac rydych bellach yn gallu trosglwyddo'r ennill i'r DU. Os cewch eich effeithio gan un ohonynt, dylech gysylltu â ni.

Cais am werth dibwys - gweler Taflen Gymorth 286 *Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you have subscribed for in qualifying trading companies* sy'n dweud wrthych sut i wneud cais gan fod gwerth ased wedi mynd yn ddibwys. Os ydych yn gwneud cais dylech ddatgan hyn yn glir yn y cyfrifiant mewn perthynas â'r ased sy'n cael ei waredu.

Rhyddhad am dreth dramor a dalwyd - os taloch dreth mewn gwlad dramor ar ennill a wnaed dramor ac rydych am hawlio credyd yn erbyn treth y DU - gweler Taflen Waith 261 *Foreign tax credits relief: capital gains.*

Rhyddhad gosod - os mai dim ond rhyddhad preswylfa breifat rannol a gewch oherwydd eich bod wedi gosod eich cartref cyfan neu ran ohono fel llety preswyl, efallai y gallwch hawlio rhyddhad pellach - gweler Taflen Gymorth 283: *Private Residence relief.*

Adseilio - dilynwch y cyfarwyddiadau ar dudalen CGN 5.

Rhyddhad ymgorffori busnes - mae hwn yn gohirio ennill pan drosglwyddir busnes i gwmni, gweler Taflen Gymorth 276 *Incorporation relief.*

Rhyddhad ar rai gwarediadau o gyfraniadau i ymddiriedolwyr cynllun annog perchnogaeth cyfraniadau cymeradwy - os credwch fod hawl gennych dderbyn y rhyddhad hwn gweler Taflen Gymorth 287 *Employee share and security schemes and Capital Gains Tax.*

Enillion blynyddoedd cynharach

Gallai rhai enillion a wnaed cyn 2007-08 fod yn drethadwy yn 2007-08. Rhaid i chi gynnwys yr enillion hyn ym mlwch 31, Er enghraifft, pan:

- hawliwyd rhyddhad treigl wrth brynu ased treigledig, gweler Taflen Gymorth 290 *Business asset roll-over relief*, neu
- hawliwyd rhyddhad daliol ar roddion wrth drosglwyddo ased i chi ac rydych wedi dod yn ddibreswyl, gweler Taflen Gymorth 295 *Relief for gifts and similar transactions*, neu

Cysylltwch

- â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r
- Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

- gohiriwyd ennill o ganlyniad i ad-drefnu cyfranddaliadau a dyrannwyd bondiau corfforaethol cymhwysol i chi, gweler Taflen Gymorth 285 *Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax*, neu
- hawliwyd gohiriad o'r ennill ar danysgrifiad am Gynlluniau Buddsoddiad Menter neu gyfraniadau Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro, gweler Taflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax* neu Daflen Gymorth 298 *Venture Capital Trusts and Capital Gains Tax*, neu
- cronnodd ennill yn 2003-04, 2004-05, 2005-06 neu 2006-07 pan ystyriwyd eich bod yn 'ddibreswyl dros dro', gweler Taflen Gymorth 278 *Temporary non-residents and Capital Gains Tax*.

Dyrannu colledion

Cyfradd feinhau	Enillion yn ôl y gyfradd feinhau	Colledion a osodwyd yn erbyn yr ennill	Enillion ar ôl colledion	Enillion wedi'u meinhau
100				
95				
90				
85				
80				
75				
70				
65				
60				
50				
25				
			Cyfanswm	

Taflen waith ar gyfer cyfrifo – cwblhewch un daflen ar gyfer pob ased a werthwyd

Disgrifiad o'r ased

er enghraifft, math a nifer y cyfranddaliadau a werthwyd neu gyfeiriad yr eiddo

Dyddiad gwerthu *DD MM BBBB*

		£	£
Derbyniadau'r gwaredu/gwerthu neu werth marchnad *os yn briodol*	1		
Mân gostau'r gwaredu/gwerthu	2		
Derbyniadau net y gwarediad *blwch 1 llai blwch 2*	3		
Dyddiad caffael			
Cost neu'r gwerth ar 31 Mawrth 1982 *gweler tudalen CGN 5*	4		
Mân dreuliau caffael	5		
Costau gwelliannau	6		
Lwfans mynegeio	7		
Cyfanswm y costau *blychau 4 + 5 + 6 + 7*	8		
Ennill neu golled *blwch 3 llai blwch 8*	9		
Rhyddhad neu ddewisiadau enillion cyfalaf *nid y swm blynyddol a eithrir*	10		
a disgrifiad			
Colledion a ddidynnwyd *Gweler tudalennau CGN 7 a CGN 8 am arweiniad*	11		
Yr ennill net *blwch 9 llai blychau 10 + 11*	12		
Cyfradd feinhau	13	%	
Yr ennill net ar ôl rhyddhad meinhau *blwch 12 wedi'i luosi gyda'r gyfradd ym mlwch 13*	14		

Taflenni Cymorth Enillion Cyfalaf

Taflen Gymorth 261	Foreign Tax Credit Relief: capital gains
Taflen Gymorth 276	Incorporation relief
Taflen Gymorth 277	Trusts with settlor interest and trusts for the vulnerable: taper and losses
Taflen Gymorth 278	Temporary non-residents and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 279	Taper relief
Taflen Gymorth 280	Rebasing - assets held at 31 March 1982
Taflen Gymorth 281	Husband and wife, civil partners, divorce, dissolution and separation
Taflen Gymorth 282	Death, personal representatives and legatees
Taflen Gymorth 283	Private residence relief
Taflen Gymorth 284	Shares and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 285	Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 286	Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you have subscribed for in qualifying trading companies
Taflen Gymorth 287	Employee share and security schemes and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 288	Partnerships and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 290	Business asset roll-over relief
Taflen Gymorth 292	Land and leases, the valuation of land and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 293	Chattels and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 294	Trusts and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 295	Relief for gifts and similar transactions
Taflen Gymorth 296	Debts and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 297	Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 298	Venture capital trusts and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 299	Non-resident trusts and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 301	Calculation of the increase in tax charge on the capital gains from non-resident, dual resident and immigrating trusts

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.